




Bwletin Llên Natur


Golwg newydd ar y byd o'n cwmpas

Rhifyn
93
Tach 2015



Glas y dorlan
Aberogwen Hydref 2015
Alun Williams

Colomennod powld



Mae'n ddiddorol gwyllo ymddygiad y golomen gopog *Ocyphaps lophotes*. Adar prysur, nwyfus,



gwyllyadwrus, ond yn gallu gwrthwynebu adar mwy gyda'u pigau peryglus - fel y mae'r clochbiod (*Gymnorhina tibicen*).

Wrth ehedeg mae eu hadenydd yn gwneud sŵn gwichian rhyfedd, un ai fel rhybudd neu er mwyn cyfathrebu â'i gilydd – 'does

neb yn siwr. Os daw aderyn o rywogaeth arall yn rhy agos, maen nhw'n taenu'r gynffon fel yn y darlun i greu'r effaith o fod yn beryglus. Penderfynnodd pâr gwyllt fy mod i'n ddigon ddiniwed i fwyta o'm llaw.

Peter Edwards (Canberra, Awstralia)

Y titw milain

Teulu Nantgaredig yn dweud eu bod wedi gwyllo item (reit ar ddiwedd y rhaglen) ar World's Wierdest Events, ar y 24 Medi 2015, BBC2, 8pm, lle'r oedd Titw Mawr yn dal ac yn bwyta ymenydd ystlumod mewn ogof yn Hwngari! O sbio ar y we, mae llawer o hanes am danynt yn gwneud yr un peth i ystlumod ac adar - y cyntaf yn 1899. Os gwn i ma'r adroddiad yna oedd T G Walker wedi ei weld pan sgwennodd o'r darn ym 1949 ([Rhifyn 91](#) tud. 5) am y titw a'r botel lefrith?

Mwy am hyn yn y rhifyn nesaf

Wil Williams

Lluniau a sylwadau o'r gofod

Mynydd Trefri, Mynedd Mechell, Mynydd Bodafon (Ynys Mon)... ac rwan Mynyddoedd Crwban

In most American states, the Turtle Mountains — which rise 600 to 800 feet (180 to 240 metres) above the surrounding plain — would be called hills. But in North Dakota, one of the flattest states, people have a habit of calling even relatively modest rises mountains.

o erthygl diweddar "*Satellite eye on earth*", sylwadau a lluniau gan ofodwr. [Cliciwch](#)

RHESTR ENWAU ADAR RW JONES a gasglwyd o fisolyn Eglwys y Bedyddwyr "Y DEYRNAS" (Gol. Lewis Valentine), Llandudno 1924-27

[] cromfachau petruol = sylw DB

() cromfachau crwn = sylw yn y testun gwreiddiol.

RWJ: RW Jones

DL: Lewis, D. Enwau Adar a Mwy o Enwau Adar

"Arferai'r Gynffonwen, neu **Gracell y Cerrig** fel y'i gelwir yn y ffiniau hyn [Llandudno]"... **Rhonellgoch**

[tingoch, redstart, disgrifiad yn y testun]"...llais pêr

Delor yr Helyg" [telor yr helyg, *willow warbler*.

Cyfeiriodd RWJ at ein delor y cnau - nuthatch -

heddiw fel **cnocell y cnau**] ...Ar 24 [Mai] gwelsom

benbwl yn ymlwybro'n isel... Y Wennol Ddu y'i gelwir

yn gyffredin yng ngogledd Cymru, Penbwl y'i gelwir yn

y fro hon - enw eithaf priodol [penbwl = gwennol y

bondo yn DL]wrth wyllo nifer bychan o **gregyll y**

waun [ystyr anhysbys] ... Rhuthrodd **beifrwen**

[**barfwen** (unig.) mewn man arall - llwydfron heddiw,

whitethroat] ...cri echrys ym mis Awst y **gylfinir leiaf**

(whimbrel) [coeg gylfinir heddiw, galwad o c.7

chwibaniad byr, un ar ôl y llall yn sydyn; yn Saesneg

hefyd *the seven whistler*]chwiban **yr hutan**

(oystercatcher) yn diasbedain yn y creigiauA dyma

gerddor arall - **clochydd y coed** (great tit), y sydd yn

seinio ei ddwy gloch oddiar frigau noeth y coed...

gwylan benwen - (kittiwake) [gwylan goesddu

heddiw], **llurod cefnddu** (razorbills), **gwylogod**

llwytygoch (guillemot).... **cwtiaid y morlan** (ringed

plovers), **crybanod y gro** (turnstones), **ysgraenod**

(terns). Richardson's Skua a berthyn i deulu'r

morladron, **Brochyn y weilgi** (Leach's fork tailed

petrel)... y wylog ddu (black guillemot)gynnydd

mawr yn yr **esgyll coch** (redwings)..... **cwtyn aur**

(golden plover).... Gwelsom y **Socas eira** (fieldfare),

yntau ar wasgar ar y mynydd... trydar bywiog yr

eurbinc (goldfinch), [nico fel arfer heddiw]..... **cracell**

yr eithin (stonechat)**rhonellgoch ddu** [tingoch

ddu, black redstart].... **pibyddion llwydwyn** (knots)...

Gwelsom fil neu ddwy o **rostogod coch** [rhostog

cynffonfraith bar-tailed godwit mae'n debyg yn ôl

cyfeiriad arall RW Jones]... **cwtyn llwyd** (grey

plover)... **yswidw benddu** (marsh tit) [titw'r gors

heddiw]... **yswidw warwen** (coal tit) [titw penddu

heddiw].....gellir clywed cwynfan **colomennod**

cefnllwyd (Stock Doves) [colomen goed heddiw]... cirll

bunting **bras genddu**.... **Cryban y gro** - turnstone...

trochydd brongoch (red-breasted merganser)... Adar

bronrhudd y mynydd (bramblings) yn tramwyo dros

gopa Pen y Gogarth... yr **hebog las** (peregrine

falcon)... gwipa (sparrow hawk)... genlli goch

[kestrel?]. ac o wyllo'r mor canfyddem **wyddau**

llygadlan (gannets) Llusg **gwyllanod Manaw**

[aderyn drycin Manaw heddiw].... Fe'u gelwir hwy yn


hwyaid llygad arian (Scaup ducks)

Casglwyd gan DB ar ran Prosiect Llên Natur gyda chydweithrediad

Trystan Lewis (Siop Lewis, Llandudno) ac fe'u trosglwyddwyd i Dr.

Andrew Hawk (Geiriadur y Brifysgol)

Daeareg ar blât



Ar y chwith mae'r plât tectonic Ewrasiaidd, ar y dde mae'r plât Americanaidd. Mae'r ddwy blat yn cyfarfod yn y llecyn yma yng Ngwlad yr Ia. Mae'r platiau yn gwahanu tua 2cm y flwyddyn.

Alun Williams

Dyma **ddehongliad arall** o'r un ffawt mewn man arall ar ei hyd tua 2014 gan Olwen Cottle

Tirlithriad Pen y Pas



Mi ddigwyddodd y graith yma dwi'n meddwl o gwmpas gaeaf 2013 ond nid oes gen i luniau ohonno yn ffresh mae arna'i ofn.

Rhys Roberts

Mae'r (neu mi oedd) y graith hon i'w gweld yn glir trwy gongl y llygaid o'r lôn wrth ddynesu at maes parcio Pen y Pass o gyfeiriad Pen y Gwrhyd. Gol

Cofnodion eraill o'r un cyfnod:

2 Tachwedd 2013, Waunfawr: Storm fawr o wynt a chenllysg trwm iawn ganol dydd. Mellt a tharannau 13.35 **Duncan Brown**

2 Tachwedd 2013: Ton fwyaf yng ngof pobl Aberystwyth wedi gwneud **difrod mawr** i'r promenad yn y storm nos Sadwrn.

3 Tachwedd 2013: Cofnod o eira cyntaf y gaeaf yn Eryri yn ol Richard Jones Clwb Camera Caernarfon. Tystiolaeth **yma**

4 Tachwedd 2013: Rhuthun: Rhew ar ffenest flaen y car am y tro cyntaf hanner olaf eleni **Gwyn Williams**

'Nabod fforch arian o bell

Roedd gwyfynod fforch arian yn brysur yn yr ardd yn Gwelfor, Waunfawr, 30 Medi 2015. Ymfudwyr o'r cyfandir ydynt fel arfer, ac i'w disgwyl ar y dyddiad y ffilmiais nhw ar ôl wythnos dda o Haf Bach Mihangel. Er nad yn greaduriaid trawiadol iawn mae eu dull o hedfan a pheillio yn drawiadol i'r rhai sydd yn gyfarwydd a hwy. Dyma lwyddo felly i gael y **fideo bach** yma yn dangos eu prysurdeb nodweddiadol.

Duncan Brown

Mwy **YMA (tud. 4)**

Tirlithriad Cwm Tŷ Du



Tirlithriad mawr a ddigwyddodd yn Nghwm Tŷ Du uwchben Llanberis Tachwedd 2012 (adeg y llifogydd yno). Mae'r graith yn sawl can troedfedd o hyd ac roedd bosib gweld darnau o goed bedw hynafol yn y mawn wedi iddo ddod i'r golwg.

Rhys Roberts

Dyma odreon Moel Eilio- "moel" meddech, "bedw?" Wel doedd hi ddim yn foel ar un adeg nag oedd? Cofnodion eraill o'r un cyfnod yn dangos nad tywydd lleol mohono:

Lourdes, Ffrainc 20 Tachwedd: Dywedodd llafarydd dros seintwar Lourdes, fod yr ogof enwog **dan 1.5m o ddwr** ar ol i'r afon Gave orlifo ei glannau. Gwaharddwyd ymweliadau gan bererinion a bu'n rhaid i 500 o bobl ymadael a'u tai. Rhagwelir mwy o law

Rhostryfan 22 Tachwedd 2012: Am y ddilyw a gawsom ni ddydd lau diwethaf. [22 Tachwedd]. Yr ydwyf newydd brofi taith afon mewn bws: Afon, o ddifrif, yn **rhedeg i lawr lon Rhostryfan**, tua 6 modfedd o ddyfnder, a'r bws gwasanaeth yn straffaglio i fyny yn erbyn y llif. Dwr yn y bws, a rhaeadr yn pistyllio o ardd rhywun.

Lari Parc

Cyprus 23 Hydref: Massive storm today [23 Hydref] and torrential rain, but warm after passed over but not boiling.

Sue Lindsay

Siobynnod Caer Caradog... ETO



Vapourer moths seen on Caer Caradoc on 30/7/2014 and they were still there two or three weeks later on my next visit. The photo was taken on my first visit on 30/7/2014 and should be geo-tagged with the location near the summit.

Keith Allen

A chymryd **cofnod**

gwreiddiol Alison Stanford i ystyriaeth fe barodd y 'pla' o'r 19 Gorffennaf, trwy'r 30ain hyd ail hanner Awst 2014 (dros fis o leiaf). Ffrwydrodd yr un pryd ar gyrion tre Amwythig (yn ôl **stori yn y Shropshire Star**) ond pa mor bell yr ymledai a pha mor gyson oedd y pla yn y cyffiniau sy'n gwestiwn arall.

Bwncath y big bêls



Dyddiad Hydref 1af Lleoliad: Malltraeth.

Roedd y bwncath yma yn bwydo ar bryfed genwair ac ar ôl dal un yn hedfan i'r "big bale" yma i'w fwyta.

Alun Williams

Bras yr eira yn ei gynefin gogleddol



.... bydd yn ymfudo tua'r de yn yr wythnosau nesaf.

Gwlad yr Ia, Medi 17.

Alun Williams

Cyhoeddwyd nifer o luniau o'r aderyn bach yma dros y blynedd, llawer ohonynt wedi eu tynnu gan Eifion Griffiths ar arfordir Clwyd (megis **Bae Cinnel**)

Gwiber Llanfihangel Bachellaeth



Gwiber yn y gwellt wrth ochor y ffordd uwchben Llanfihangel Bachellaeth. Roedd hi'n fawr ac yn dew, yn swrth a digon disymud er i mi gyffwrdd ynddi (efo rhedynen!). Tynnwyd 20 Medi 2015

Anet Tomos

Copyn cacwn - y diweddaraf



.....Although common in many parts of Europe, wasp spiders only appeared in England in the 1920s, and for many years were confined to the south. Benefiting from the warmer summers, they have more recently begun to spread north, now reaching the Midlands.

Country Diary 19 Medi 2015

Llun uchod gan Dominig Kervegant yn Beg ar Raz / Pointe du Raz 08 Awst 2006. Darllenwch y stori eto ym **Mwletin 75**. Mae hwn wedi cyrraedd de Cymru (coryn picwn?) eisoes ac yn ôl Richard Gallon, swydd Derby hefyd. Beth am fod y cyntaf erioed i weld "copyn gwenyn meirch" yn siroedd y gogledd?

Chwefror y carfilod bach (1950)

Ar y 24 Chwefror 1950 cofnododd Mary Vaughan Jones (Waunfawr) yn **ei nodiadau (tud 6)** iddi weld carfilod bach ar y traeth yng Ngricieth. Dim byd yn arbennig yn hynny meddech.... nes i chi weld **beth arall oedd yn digwydd** o gwmpas glannau gwledydd Prydain tua'r un dyddiad.



Llun: Alun Williams

Gwalchwyfyn penglog, Llangernyw

Dyma'r gwyfyn y bu i William Edwards, Llangernyw ei ddarganfod wrth ddrws ei dŷ ar Fedi 21ain eleni. Meddyliodd yn gyntaf mai rhyw dderyn bach marw oedd yno ond buan y sylweddolodd mai dyma'r gwyfyn mwyaf iddo erioed ei weld.

Sioned Harris

Mwy am y gwalchwyfyn hwn **yma**

Dathlu penblwydd Gwarchodfa Natur Genedlaethol

Niwbrwrch yn 60 Neuadd Pritchard Jones, Niwbrwrch
Drysau'n agor am 7.15pm: bydd pob sgwrs yn para tua awr, £1 y pen. Y mis hwn:
Tachwedd 3 Adar Mudo Kelvin Jones BTO Cymru
Tachwedd 17 Archeoleg Gorllewin Môn (C) Rhys Mwyn, Archeolegydd


Yr Hwyl Fôr



Hwyl fôr, wed'i thirio, traeth Hafan Druidstone, Sir Benfro. Gorffennaf 2008.

Mae'r creadur yma yn byw ymhell o'r lan, yng nghanol Môr yr Iwerydd. Dim ond pan fydd y gwynt yn chwythu yn gryf, ac yn gyson, y bydd yn cael ei thirio ar ein glannau, ond pan mae hyn yn digwydd maent yn gallu ymddangos yn ei miliynau, fel yn 2004 a 2006. Fel arfer mae'r gwynt yn chwythu'r hwyl fôr i lywio cylch enfawr traws Fôr yr Iwerydd, heb ddod i gyffwrdd a'r arfordir byth. Ond os yw'r gwynt yn rhy gryf, mae'r 'llog' yn dechrau troi yn eu unfan ar y wyneb, ac felly yn fwy tebyg o ddilyn y gwynt. Mae'r hwyl yn rhedeg ar ongl draws y 'ford' i ddal y gwynt. Mae rhai gyda'r hwyl wedi ei droi i'r dde, eraill i'r chwith, felly fe ddiolir gan y gwynt i heidiau sydd o'r un set i'r hwyliau. *Bye-the-wind-sailor* yw ei enw Saesneg

Sion Roberts



Jellyfish sightings around the UK, 2003-2013. Yellow circle = *Aurelia aurita*. Green circle = *Chrysaora hysoscella*. Pink circle = *Cyanea capillata*. Red circle = *Cyanea lamarckii*. Blue circle = *Pelagia noctiluca*. Yellow pin = *Physalia physalis*. Green pin = *Rhizostoma octopus*. Blue pin = *Velella velella*. Source data: MCS

Mae'r "pinnau" gleision ar y map yn awgrymu'r cyfeiriad arferol (saeth glas) y daw'r hwyl fôr ohono yn ôl sylw Sion.

Hocyswydd Llangwyfan



29 Medi 1961: A wild wind raging. We went to Aberffraw to see the island-church at Llangwyfan. We looked over the bay and decided to stay

on the mainland and went down the lane by the Tree-mallow instead. My three plants had increased to something like a dozen, and that spread both up and down the lane. I noticed they always grow where they have good shelter from the West wind.....

Dyddiadur Hilda Murrell

Gofynais i gyfaill sy'n byw yn yr ardal, Wil Williams "Ydi hocyswydd Hilda Murrell yn dal yno?"

Ydi, Tad! O flaen bydai Penrhyn Du. Cafodd y ty- sydd wedi ei anfarwoli mewn lluniau gan Kyffin Williams ei chwalu i'r llawr rhyw fore gan Stad Bodorgan. Spens-fel y galwai pobl Berffro fo (Spencer Hughes)- fuo'n dal y tir am flynyddoedd. Roedd yn hoffi a mwynhau y bywyd gwyllt o'i gwmpas- yn cynnwys yr Hocyswydden. Pan fu farw, gosodwyd torch bach o floda (plastig) wrth adfeilion y tŷ (gweler y llun). Yn y cefndir, wrth y bydai [saeth], gweler yr Hocyswydden.

Wil Williams

Trwy ffenestr y gwaith



Hwn newydd hedfan i mewn trwy ffenestr gwaith! [sef swyddfeydd y Sir yng Nghaernarfon, 6 Hydref 2015]

Siân Alaw Williams

Y tarianbryf hâd conwydd yw hwn (un arall yn yr Oriel yn 2009 o Solihull). Newydd-ddyfodiad i Brydain o'r America ydi hwn ac ychydig

iawn o gofnodion sydd yna o Wynedd.

Meddai'r arbenigwr Mike Howe (CNC): "Not a species I've encountered although the map on NBN shows it to be widespread in southern Britain, and heading north."

Mwy enwau natur RW Jones, Llandudno - y glöynnod tro 'ma (gweler uchod)

enwau safonol heddiw, a Saesneg mewn cromfachau

llwygach bach (gweirlöyn bach y waun, *small heath*)

llwyd y grug (gweirloyd llwyd, *grayling*)

pendefig coch (mantell goch, *red admiral*)

rhaien fraith (mantell dramor, *painted lady*)

euryn y gors (gwyn blaen oren, *orange tip*)

rhaien fraith [?]

peunliw (mantell paun, *peacock butterfly*)

Pwy oedd Mary Vaughan Jones?

Mewn gair, dynes ym mhumdegau cynnar y ganrif ddiwethaf, mewn cartref diarffordd ger y Waunfawr, a oedd â digon o gymeriad iddi (ie, dynes cofiwch) i fynd ati i astudio, er enghraifft, trefn canu adar côr y wig yn ei libart ym Mhlas Glanrafon. Nid yn unig trefn canu cor y wawr chwaith, ond trefn canu'r machlud hefyd.



Isod mae rhestr yr adar a welodd hi yn y caeau a'r coed o gwmpas y fferm.

Gofynnwyd i berchen presennol Plas Glanrafon, Arthur Davies, adarydd profiadol yn ei hawl ei hun, i wneud cymhariaeth ag adar presennol y fferm gyda'r hyn a welodd Mary bron 70 mlynedd yn ôl. Dyma rai o'i sylwadau (B=breeding):

5 "B still increasing"; 6 "not seen for 30 years"; 7 "occasional"; 8 "B 3 pairs plus"; 9 "not seen for 10 years"; 10 "B resident"; 11 "occasional"; 12 "B resident"; 26 "not seen"; 27 "winter only, 32 "not seen"; 33 "regular"; 34 "not seen"; 35 "occasional"; 36 "passage"; 37 "used to breed, not seen 5 yrs"; 47 "passage"; 48 "passage"; 49 "40+ winter"; 50 "winter"; 55 "winter"; 57 "not seen"; dim aredig ers blyneddoddedd.

Dyma'r newidiau pennaf ar y fferm felly: 8 delor y cnau (++) , 9 tylluan fach (--), 26 siglen felen (--), 32 turtur (--), 34 rhegen yr yd (--), cnoCELL werdd (-), tinwen y garn (+/-), 37 bras melyn (--); 47 gylfinir (--), 48 cornchwiglen (--). Dyna i chi UN PLWS ac WYTH MEINWS. Trist iawn.

Rhestr adar Plas Glanrafon, Waunfawr [Mary Vaughan Jones, née Parry] tua 1950 (fe'u cofnododd yn Saesneg)

1. Dipper
2. Blackbird
3. Mistlethrush
4. Song Thrush
5. Jay (great increase in number)
6. Kingfisher (carreg blwm)
7. Moor hen
8. Nuthatch (summer '49 and late autumn)
9. Little Owl (Hendai)
10. Barn Owl
11. Oyster catcher – cefn yr ardd
12. Pheasant
13. Meadow pipit
14. Robin
15. Wren
16. Goldcrest
17. Tits – Blue
18. Great
19. Coal

20. Long tailed
21. Tree creeper
22. Warblers – Willow
23. chiff chaff
24. Wagtail – pied (nesting)
25. Grey (nesting)
26. Yellow (passage)
27. Wood cock – coed [enw darn o dir]
28. Wood pigeon
29. Red Wing
30. Fieldfare
31. Cuckoo
32. Turtle Dove
33. Water rail
34. Corn crane
35. Woodpecker (green)
36. Wheatear (1949)
37. Yellowhammer (nesting & passage)
38. Hedge Sparrow
39. Chaffinch
40. Sparrow
41. Gold finch
42. Green finch (Bodwyn)
43. Jackdaw

44. Rook
45. Carrion Crow
46. Magpie
47. Curlew
48. Lapwing
49. Snipe
50. Pheasant (wedi ei groesi allan gw.12.)
51. Swift
52. Swallow
53. House martin
54. Sand martin
55. Skylark
56. White throat
57. Twite
58. Bullfinch
59. Kestrel
60. Sparrowhawk
61. Heron
62. Mallard
63. C. Buzzard
64. Linnet
- Black headed gull, lesser black backed, herring gull – aredig

Mwy am waith Mary yn y rhifyn nesaf.

Dirgelwch yr ewyn gwyn - a dim Brownie 127 chwaith!



Heddiw, wrth gerdded dros bompren dros yr Afon Lledr, dan Bont Gethin, mi welais y peth rhyfedda erioed. Ro'n i'n meddwl mai cylch crwn o ddefnydd tebyg i 'polystyrene' gwyn oedd yn arnofio mewn pwll bychan o ddŵr odditana'i. Neu efallai tiwb neu deiar car gwyn, neu ryw 'lifejacket gwyn. Beth bynnag, mi es i lawr i lan yr afon i archwilio go iawn, a darganfod mai cylch perthfaith grwn, tua llathen o léd, o ewyn gwyn wedi casglu at ei gilydd, a chreu'r siâp olwyn, gyda thwll yn y canol. Roedd yn troi'n hamddenol yn y pwll bychan, heb allanfa i'r afon fawr ei hun. Ers faint oedd o yno, Duw a wŷr. Roedd fel petai wedi cael ei ddal yn y pwll hwn ers peth amser, a'r afon wedi bod yn eitha isel ers tro. Rhyw ddeglath yn uwch, mewn pwll bychan arall yn yr afon roedd casgliad arall o ewyn/bybls wrthi'n cael ei greu i siap crwn arall. Welais i 'rïoed dim byd tebyg o'r blaen, a dwi wedi crwydro glannau'r afonydd 'ma ers tro byd! Oes gen to eglurhad i'r ffenomen hwn? Llun camera symudol ydio, gyda llaw. Os ga'i amser cyn diwedd yr wythnos, a chyn llyfogydd, mi af draw efo'r Brownie 127, i dynnu llun iawn ohono!

Viv Parry-Williams

Lleuad gilgant uwchben Atomfa Traws



18 Medi 2015

Keith O'Brien

Hel wyau'r allt

Dywedid y byddai ffermwyr Trwyn Cilan, Llŷn yn nodedig am godi'n hwyr yn ystod y gaeaf. Nid diogi oedd i gyfrif am hyn yn ôl pob tebyg ond yn hytrach oherwydd eu bod yn aros ar eu traed i sgwrsio hyd ddau a thri o'r gloch y bore. Nid pawb a gytunai â'r esboniad hwn fodd bynnag, fel y dengys y rhigwm canlynol a glywyd yn yr ardal yn ddiweddar:

Tra bo'r haul yn twnnu'n felyn
Ar ben sgorbor Jams Bryn Celyn,
Tra bo cynffon wrth din mulfran
Nid aiff diogi byth o Gilan!

Roedd yn arferiad yng Nghilan i fynd i "hel wyau'r allt", sef gallt y môr. Byddai wyau'r gwylanod yn flasus iawn ac roedd eu casglu yn sicrhau na fyddai gormod o'r adar i ddifetha'r cnydau. Oherwydd serthedd y creigiau roedd yn ofynnol defnyddio rhaffau a chofnod wyd paratodau'r criw yn y rhigvwm canlynol:

"Rhowch hi'n unplyg"
Meddai Sam Nantbig;
"Na, rhowch hi'n ddwbwl,"
Meddai Ifan Murcwpwl.
"Mi'neith y tro."
Meddai Sion y Go';
"G'neith i'r dim,"
Meddai Harri'r Cim.

Adroddir hanes am un hen greadur yn crwydro creigiau Cilan un tro pan welodd nythaid o wyau ffres ar silff yn nannedd y graig. Heb raff na dirn dringodd i lawr ond darganfu na fedrai ollwng ei afael i wagio'r nyth. Heb feddwl dirn gollyngodd ei hun nes ei fod yn hongian gerfydd ei ën a gailuogodd hyn ef i lenwi ei bocedi a'r wyau blasus!

O archif Llafar Gwlad

Mwy am hel wyau'r gelltydd [yma \(tud. 3\)](#)

Drama drydanol ym Môn

Sylwi bora Sadwrn [10 Hydref 2015, Bethel] bod yna fwncath wedi marw ar ben polyn lectric sydd ar



derfyn cae ffrynt. Yr oedd wedi cael sioc farwol. Yr oedd un grafanc wedi cael ei llosgi i ffwrdd. Yr oedd gweddillion cwningen yn y grafanc arall [cafwyd llun hwnnw hefyd gan Wil].



Bu dwy biden yn ymyl y corff ddoe - a pryfaid chwthu. Yr oeddwn ar gychwyn i dynu mwy o lunia ar ôl cinio heddiw pan sylwais bod

6 Bran Dyddyn yn dwrdio ac yn pigo'r corff tan disgynodd i'r llawr. Fflion i ffwrdd wedyn. Wil Williams

Pa fath o wyfyn



What type of moth (I think it's a moth, it looked like one when it flew off) is in the attached image. He joined me at lunch in the car. I was travelling


between jobs, and stopped for lunch near Pont Marquis [Caergybi], not far from home. It came in the open window and stopped for just long enough for me to take the snap". Gwyfyn yn wir Steve. *Pterophorus pentadactyla* plu-wyfyn gwyn ydy hwn..." We found it in the book now, their image is totally different and is shown with white wings spread out. Steve Roddick

O'r dyddiaduron - y pregethwr unicorn!

Sul 1877 diwrnod cawodog dyn or yncorn [sic] yn Pregethi.....

Dyddiadur Edward Edwards

Herri ar Borgn



Ddiwedd Medi, colodd Llydaw un o'i beirdd gwerin mwyaf adnabyddus, sef Herri ar Borgn o Ploue (*Plouay*) ger an Oriant (*Lorient*). Roedd gan Herri wybodaeth doreithiog am ei fro, ei natur, ei phobl a'i hiaith. Mae rhai yn ei gofio orau am ei gasgliad o iaith lafar werin ardal Afon Skorr (Scorff). Dechreuodd Herri ei yrfa fel offeiriad

Catholig a threuliodd flynyddoedd lawer yng Nghatalonia (Perpignan) cyn gadael ei alwedigaeth a dychwelyd i Lydaw. Ymwelodd â Chymru fel rhan o gynllun cyfnewid rhwng Cymru a Llydaw y Parciau Naturiol yn 2002, a rhyfeddodd at harddwch cefn gwlad ardal Bangor. Bu'n brwydro'n ddi-baid dros nifer lawer o achosion o bob math yn Llydaw: iaith, byd natur a gwleidyddiaeth. Mae hon yn gollod enbyd i'w fro (ar Vro Pourlet, ar Gemene/Guémené sur Scorff) ac i Lydaw. Ysbrydolodd lawer o bobl a minnau yn eu plith. Barddoniaeth: Glaou Bev, Son ar Sell – iaith: Brezhoneg ar Skorr – Rhyddiaith: Pennduig ma c'hazhez, Bleuñven mam buoc'h. Dominig Kervegant

Caldrist llydanddail



..... a welwyd ar Fynydd Mwynglawdd ar Fedi y cyntaf eleni. Roeddynt yn niferus yno ond gan ei bod braidd yn hwyr i'r caldris dau yn unig oedd yn eu llawn blode Lun Roberts

Dywedir bod hwn yn gyffredin ym Mhrydain ond yn bennaf yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Beth yw tarddiad "caldris"? **Ewch yma i weld!**

Bwrw barrug



Gyda llaw, bu son ar Galwad Cynnar yr wythnos diwethaf am *hoar in the air* neu *hoarfrost in the air*? Eisio term Cymraeg amdano? Wel, dyma beth a glywais i rai yn ei alw tra'n gweithio yn Chwarel Llechwedd yn yr 1960au – bwrw barug. Nodais enghraifft yn fy nyddiadur ym mis Ionawr 2010. Dyma enghraifft mewn print o'r Cymro, 10 Ionawr 1907:

'Tawelwch llethol fydd yn teyrnasu pan y bydd yn bwrw barug,' ys dywedir....

Steffan ab Owain

"Moel" Leucu - a threth ar fenyn!

Dyma Dafydd Whiteside Thomas yn cywiro'r Saeson (a'r Cymry o ran hynny) ynglyn ag ystyr "Moel". *Moel can be used in Welsh in three different ways. It is an adjective that describes someone who has lost his hair: that is 'bald'. A hill or mountain can also be described as being bald because it has hardly any vegetation growing on it. It is bare or exposed.*

Moel can be both a masculine and feminine name in Welsh. Y Moel (mas.) refers to a man (women never become bald!). Nant y Moel or Pen y Moel is a reference to a hill that resembled a bald man. If the name is mutated, or if the following word is mutated, then it is feminine, and refers directly to the hill. Thus Y Foel, Y Foel Goch, Moel Faban.

Moel was used originally in the Laws of Hywel Dda to describe the payment made in butter to the lord of the manor. A dish of butter "without the moel" was to be paid each winter. Butter, when placed in a dish, had to be level. If it formed a slight mound in the dish; it was known as 'moel', and had to be scraped off. The Latin translation for 'moel' in these old Welsh laws was 'summitas', which became the English 'summit'. Thus Moel y Wyddfa is the same as the summit of Snowdon.

Over the years, the word was used as a description of the rounded mound that resembled the old butter dish sent as tax to the lord of the manor, which also resembled the shape of a bald head. Thus 'moel' not only describes the shape, but also the lack of growth on that shape, be it a person or a mountain. Thus Moel Leucu refers to the Hill with a rounded shape belonging to Lucy, and not the Hill of Bald Lucy!

Nodyn i ddarllenwyr fersiwn bapur y Bwletin:

cofiwch bod y geiriau mewn print coch yn ddolenni "byw" ac yn arwain at bob math o wybodaeth bellach yn fersiwn y we. Dydi'r gwasanaeth hwn ddim ar gael wrth gwrs yn y fersiwn bapur.